

Asesiadau o'r Effaith ar Degwch a Chydraddoldebau (2015)

Mae'r ffurflen hon yn cyflwyno tystiolaeth bod cydraddoldebau, yr iaith Gymraeg a thegwch wedi cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau ynghylch polisiâu a darparu gwasanaethau yng Nghyngor Dinas Casnewydd.

Daw ein ffocws Cydraddoldebau o Ddeddf Cydraddoldebau 2010: rydym yn ystyried y naw nodwedd warchoddedig sy'n ymwneud â chydraddoldeb - oedran, ailbennu rhywedd, anabledd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol.

O dan y Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol, mae gennym ddyletswydd i wneud y canlynol:

- Dileu achosion o wahaniaethu, aflonyddu ac erlid anghyfreithlon
- Gwella cyfle cyfartal
- Meithrin cydberthnasau da

mewn perthynas â phob un o'r naw nodwedd warchoddedig.

O dan Fesur y Gymraeg 2011, ni ellir trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Yng Nghasnewydd rydym yn canolbwyntio ar Degwch drwy'r themâu canlynol: Iechyd, Tlodi, Sgiliau a Gwaith, Cam-drin Domestig a Mynd i'r Afael ag Amddifadedd sy'n Seiliedig ar Ardal.

Maes Gwasanaeth	Pennaeth Gwasanaeth	Y sawl sy'n gyfrifol am yr Asesiad	Dyddiad yr Asesiad
Addysg	Sarah Morgan	Deborah Weston	Rhagfyr 2017

1. Beth yw'r polisi/gwasanaeth sy'n cael ei asesu?

Pennu'r cynnig terfynol i gael gwared ar ddarpariaeth y Ganolfan Adnoddau Dysgu, sydd yn Ysgol Uwchradd Llanwern ar hyn o bryd, er bod hynny gyda dyddiad gweithredu wedi'i addasu sef Ebrill 2018.

2. Beth yw diben newid y polisi/gwasanaeth?

Rhoi'r arbedion cyllideb y cytunwyd arnynt gan y Cabinet ar waith fel bod y cyllid y gellir ei briodoli i'r Gyllideb Ysgolion Unigol yn dod i ben ar gyfer darpariaeth y Ganolfan Adnoddau Dysgu yn Ysgol Uwchradd Llanwern.

3. Nodweddion Gwarchodedig

Nodwedd Warchodedig	Pwy yw'r cwsmeriaid/defnyddwyr gwasanaeth/darpar ddefnyddwyr gwasanaeth?	Os byddwn yn gwneud y penderfyniad hwn, beth fydd yr effaith bosibl? Gall yr effaith fod yn gadarnhaol neu'n negyddol Esboniwch sut y gallai hyn effeithio ar bobl a rhowch dystiolaeth o hyn	Cynllun Gweithredu i fynd i'r afael â'r materion a godwyd Pa newidiadau neu fesurau ymarferol fyddai'n lleihau'r effaith andwyol ar grwpiau penodol? Pa newidiadau fyddai'n cynyddu effeithiau cadarnhaol e.e. gwella mynediad neu gyfle (gellir ailystyried ar ôl yr ymgynghoriad)	Pwy sy'n gyfrifol?	Amserlen ar gyfer adolygu
Oed	Plant oed ysgol uwchradd ym mlynnyddoedd 7 – 9 a'u rhieni/gofalwyr	Mae'r Ganolfan Adnoddau Dysgu yn wag ar hyn o bryd ac nid oes unrhyw gynlluniau i blant gael eu cynnwys yn y ddarpariaeth hon, nes y gwneir penderfyniad terfynol ar y cynnig hwn.	Roedd y cynnig hwn yn destun ymgynghoriad ffurfiol ag amrywiaeth o randdeiliaid, ac mae'r canlyniad wedi'i amlinellu yn Adroddiad yr Ymgynghoriad sydd wedi'i baratoi a'i gyhoeddi ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd. Yna cyhoeddwyd cynnig statudol a roddodd gyfle i wrthwynebiadau cyfreithiol gael eu cyflwyno. Dim ond un gwrthwynebiad a gafwyd, gan aelod o staff a gyflogwyd yn flaenorol yn y ddarpariaeth. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion a oedd yn mynychu'r Ganolfan bellach wedi symud yn	Prif Swyddog Addysg	Caiff y cynnig ei weithredu ym mis Ebrill 2018

			<p>llwyddiannus i ddarpariaeth grwpiau bach mewn ysgolion cynnal. Nid oedd yr unig ddisgybl nad oedd wedi cael ei symud yn llwyddiannus yn mynychu'r ddarpariaeth yn rheolaidd ac mae wedi symud i grŵp meithrin bach ar gyfer disgyblion agored i niwed, sy'n fwy addas ar gyfer ei anghenion penodol.</p>		
Ailbennu rhywedd	Ddim yn berthnasol				
Anabledd	Plant oed ysgol uwchradd ym mlynnyddoedd 7 – 9 y mae ganddynt anabledd cofrestredig a'u rhieni/gofalwyr	<p>Mae'r Ganolfan Adnoddau Dysgu yn wag ar hyn o bryd ac nid oes unrhyw gynlluniau i blant gael eu cynnwys yn y ddarpariaeth hon, nes y gwneir penderfyniad terfynol ar y cynnig hwn.</p>	<p>Roedd y cynnig hwn yn destun ymgynghoriad ffurfiol ag amrywiaeth o randdeiliaid, ac mae'r canlyniad wedi'i amlinellu yn Adroddiad yr Ymgynghoriad sydd wedi'i baratoi a'i gyhoeddi ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd.</p> <p>Yna cyhoeddwyd cynnig statudol a roddodd gyfle i wrthwynebiadau cyfreithiol gael eu cyflwyno. Dim ond un gwrthwynebiad a gafwyd, gan aelod o staff a oedd wedi'i gyflogi'n flaenorol yn y ddarpariaeth.</p> <p>Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion a oedd yn mynychu'r Ganolfan bellach wedi symud yn llwyddiannus i ddarpariaeth grwpiau bach mewn ysgolion cynnal. Nid oedd yr unig ddisgybl</p>	Prif Swyddog Addysg	Caiff y cynnig ei weithredu ym mis Ebrill 2018

			nad oedd wedi cael ei symud yn llwyddiannus yn mynychu'r ddarpariaeth yn rheolaidd ac mae wedi symud i grŵp meithrin bach ar gyfer disgyblion agored i niwed, sy'n fwy addas ar gyfer ei anghenion penodol.		
Priodas/Partneriaeth Sifil	Ddim yn berthnasol				
Beichiogrwydd a Mamolaeth	Ddim yn berthnasol				
Hil	Plant oed ysgol uwchradd ym mlynnyddoedd 7 – 9 a'u rhieni/gofalwyr	Mae'r Ganolfan Adnoddau Dysgu yn wag ar hyn o bryd ac nid oes unrhyw gynlluniau i blant gael eu cynnwys yn y ddarpariaeth hon, nes y gwneir penderfyniad terfynol ar y cynnig hwn.	<p>Roedd y cynnig hwn yn destun ymgynghoriad ffurfiol ag amrywiaeth o randdeiliaid, ac mae'r canlyniad wedi'i amlinellu yn Adroddiad yr Ymgynghoriad sydd wedi'i baratoi a'i gyhoeddi ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd.</p> <p>Yna cyhoeddwyd cynnig statudol a roddodd gyfle i wrthwynebiadau cyfreithiol gael eu cyflwyno. Dim ond un gwrthwynebiad a gafwyd, gan aelod o staff a oedd wedi'i gyflogi'n flaenorol yn y ddarpariaeth.</p> <p>Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion a oedd yn mynychu'r Ganolfan bellach wedi symud yn llwyddiannus i ddarpariaeth grwpiau bach mewn ysgolion cynnal. Nid oedd yr unig ddisgybl</p>	Prif Swyddog Addysg	Caiff y cynnig ei weithredu ym mis Ebrill 2018

			nad oedd wedi cael ei symud yn llwyddiannus yn mynychu'r ddarpariaeth yn rheolaidd ac mae wedi symud i grŵp meithrin bach ar gyfer disgyblion agored i niwed, sy'n fwy addas ar gyfer ei anghenion penodol.		
Crefydd/cred (neu absenoldeb hynny)	Ddim yn berthnasol				
Rhyw	Plant oed ysgol uwchradd ym mlynnyddoedd 7 – 9 a'u rhieni/gofalwyr	Mae'r Ganolfan Adnoddau Dysgu yn wag ar hyn o bryd ac nid oes unrhyw gynlluniau i blant gael eu cynnwys yn y ddarpariaeth hon, nes y gwneir penderfyniad terfynol ar y cynnig hwn.	<p>Roedd y cynnig hwn yn destun ymgynghoriad ffurfiol ag amrywiaeth o randdeiliaid, ac mae'r canlyniad wedi'i amlinellu yn Adroddiad yr Ymgynghoriad sydd wedi'i baratoi a'i gyhoeddi ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd.</p> <p>Yna cyhoeddwyd cynnig statudol a roddodd gyfle i wrthwynebiadau cyfreithiol gael eu cyflwyno. Dim ond un gwrthwynebiad a gafwyd, gan aelod o staff a oedd wedi'i gyflogi'n flaenorol yn y ddarpariaeth.</p> <p>Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion a oedd yn mynychu'r Ganolfan bellach wedi symud yn llwyddiannus i ddarpariaeth grwpiau bach mewn ysgolion cynnal. Nid oedd yr unig ddisgybl nad oedd wedi cael ei symud yn</p>	Prif Swyddog Addysg	Caiff y cynnig ei weithredu ym mis Ebrill 2018

			llwyddiannus yn mynychu'r ddarpariaeth yn rheolaidd ac mae wedi symud i grŵp meithrin bach ar gyfer disgyblion agored i niwed, sy'n fwy addas ar gyfer ei anghenion penodol.		
Cyfeiriadedd Rhywiol	Ddim yn berthnasol				
Y Gymraeg	Ddim yn berthnasol. Mae'r cynnig yn ymwneud â darpariaeth cyfrwng Saesneg				

4. Â phwy mae'r gwasanaeth wedi ymgynghori ynglŷn â'r newid arfaethedig? Pryd y dylid cynnal yr ymgynghoriad newydd?

DS: Mae'n hanfodol bod defnyddwyr gwasanaeth a phartion eraill sydd â buddiant yn rhan o'r broses gynllunio cyn gynted â phosibl. Dylai cam cychwynnol ymgynghoriad ddilyn themâu cyffredinol. Mae'n briodol gofyn pa wasanaethau sy'n cael eu gwerthfawrogi, sut y gellid newid gwasanaethau a/neu beth y gellid ei wneud yn wahanol. Yna dylai'r adborth hwn lywio eich cynigion achos busnes a'r asesiadau o'r effaith ar degwch a chydaddoldebau. Pan fydd cynigion penodol wedi cael eu llunio, bydd angen ymgynghori arnynt hwy hefyd. Bydd angen i'r holl randdeiliaid a'u safbwyntiau gael eu cynrychioli.

Soniwyd am ddod â chyllid i ben yng nghynigion cyllideb y Cyngor ar gyfer 17/18, ac roedd hyn yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. Er gwaethaf hyn fodd bynnag, roedd y cynnig hwn yn destun ymgynghoriad ffurfiol ag amrywiaeth o randdeiliaid yn unol â diffiniad Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru. Mae'r adborth a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad ffurfiol wedi'i amlinellu mewn Adroddiad ar yr Ymgynghoriad sydd wedi'i baratoi a'i gyhoeddi ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd.

Yna cyhoeddodd y Cyngor gynnig statudol am 28 diwrnod i gau'r Ganolfan Adnoddau Dysgu yn barhaol. Cyflwynwyd un gwrthwynebiad yn ystod y cam hysbysu statudol, gan aelod o staff a oedd wedi'i gyflogi i weithio yn y Ganolfan Adnoddau Dysgu yn Ysgol Uwchradd Llanwern. Amlinellir y rhesymau dros y gwrthwynebiad hwn ac ymatebion y Cyngor yn yr Adroddiad Gwrthwynebu a gaiff ei gyhoeddi ar wefan Cyngor

Dinas Casnewydd yn dilyn y dyfarniad terfynol.

5. Pa dystiolaeth/data sydd wedi cael eu defnyddio i gwblhau'r asesiad hwn o'r effaith ar degwch a chydaddoldebau (Bydd hyn yn cynnwys canllawiau lleol a chenedlaethol)

Drafftwyd achosion busnes fel rhan o gynigion cyllideb y Cyngor ar gyfer 2017/18.

Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, a Chod Trefniadaeth Ysgolion statudol 2013. Mae canlyniadau'r ymgynghoriad hwn wedi'u hamlinellu mewn Adroddiad ar yr Ymgynghoriad sydd wedi'i baratoi a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Yna cyhoeddwyd cynnig statudol, a roddodd gyfle i randdeiliaid gyflwyno unrhyw wrthwynebiadau cyfreithiol yn erbyn y cynnig. Cafwyd un gwrthwynebiad, ac amlinellir y manylion yn yr Adroddiad Gwrthwynebu.

6. Sut y bydd y grwpiau perthnasol yn cael eu hysbysu o'r newidiadau a'r asesiadau o'r effaith ar degwch a chydaddoldebau?

Gwnaed rhanddeiliaid yn ymwybodol o'r ymgynghoriad cychwynnol a threfnwyd sesiwn ymgysylltu er mwyn iddynt gael rhagor o wybodaeth. Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori, lluniwyd a chyhoeddwyd Adroddiad ar yr Ymgynghoriad, a gwnaed rhanddeiliaid yn ymwybodol o hyn.

Yna penderfynodd y Cyngor gyhoeddi cynnig statudol. Cyhoeddwyd hyn ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd a chafodd copïau eu harddangos ym mhob prif fynedfa yn Ysgol Uwchradd Llanwern. Cafodd yr hysbyseb hefyd ei rhannu â phob rhanddeiliad fel yr amlinellir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion statudol, gan gynnwys disgyblion, staff a rhieni / gofalywyr Ysgol Uwchradd Llanwern a rhieni disgyblion sy'n mynychu'r pum ysgol clwstwr ar hyn o bryd: Ysgol Gynradd Alway, Ysgol Gynradd Eveswell, Ysgol Gynradd Llanmartin, Ysgol Gynradd Milton ac Ysgol Gynradd Ringland.

Caiff manylion y dyfarniad terfynol eu rhannu â rhanddeiliaid hefyd fel y'u hamlinellir ac y'u diffinnir o fewn y Cod Trefniadaeth Ysgolion.

7. Sut y bydd y polisi/arfer yn gwneud Casnewydd yn fwy neu'n llai teg mewn perthynas â'r canlynol:

- Anghydaddoldebau lechyd
- Tlodi Plant
- Sgiliau a Gwaith

- Mynd i'r Afael â Thrais Domestig
- Camddefnyddio Alcohol a Sylweddau
- Digartrefedd
- Cyn-filwyr y Lluoedd Arfog

Bydd y ddarpariaeth gostus yn dod i ben a chaiff cyllid ei dargedu'n briodol mewn mannau eraill.

8. Sut y bydd y gwasanaeth/polisi yn effeithio ar ardaloedd lleol o'r ddinas?

A fydd yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol o ran tegwch a mynd i'r afael ag amddifadedd ardal leol? (bydd angen i chi ddefnyddio data gofodol sydd ar gael drwy Broffil Casnewydd a Phroffiliau Ward penodol i ateb y cwestiwn hwn)

Er bod y ddarpariaeth wedi'i lleoli yn Ysgol Uwchradd Llanwern, gall disgyblion ledled y ddinas ei defnyddio yn ôl eu hangen. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd y disgyblion hyn bellach yn cael eu cynnwys mewn lleoliadau grwpiau bach yn eu hysgolion dalgylch, sy'n golygu y bydd mwy o ryngweithio â'u grwpiau cymheiriaid lleol.

9. Yn gryno, sut mae'r gwasanaeth/polisi diwygiedig yn hyrwyddo cysylltiadau da â'r gymuned (cydlyniant)?

Caiff disgyblion bellach eu cynnwys mewn lleoliadau grwpiau bach yn eu hysgolion dalgylch sy'n golygu y bydd mwy o ryngweithio â'u grwpiau cymheiriaid lleol.

10. Yn gryno, sut mae'r gwasanaeth/polisi diwygiedig yn hyrwyddo cydraddoldeb?

Caiff disgyblion bellach eu cynnwys mewn lleoliadau grwpiau bach yn eu hysgolion dalgylch sy'n golygu y bydd mwy o ryngweithio â'u grwpiau cymheiriaid lleol.

11. Yn gryno, sut mae'r gwasanaeth/polisi diwygiedig yn dileu achosion o wahaniaethu?

Caiff disgyblion bellach eu cynnwys mewn lleoliadau grwpiau bach yn eu hysgolion dalgylch sy'n golygu y bydd mwy o ryngweithio â'u grwpiau cymheiriaid lleol.

Deborah Weston

Cymeradwywyd gan: Sarah Morgan, Pennaeth Addysg Dros Dro

Dyddiad: Rhagfyr 2017

Sarah Morgan